CHWARAEON

Fel rheol, bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Chwaraeon y gallu i:

- Ddeall datblygiad gwybodaeth am ymatebion dynol i chwaraeon ac ymarfer corff.
- Deall yr elfen o berfformio mewn chwaraeon a sut mae gwella, monitro a dadansoddi hynny.
- Deall yr angen am ddull aml-ddisgyblaethol a rhyng-ddisgyblaethol o astudio, mewn cyd-destun gwasanaeth, ymchwil a phroffesiynol.
- Gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth a dealltwriaeth o'r disgyblaethau sy'n gysylltiedig â'r corff dynol a sut mae'r corff yn gweithio.
- Deall ymlediad, dosbarthiad ac effaith chwaraeon yn hanesyddol, cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a diwylliannol.
- Deall y broses hyfforddi a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y broses honno.
- Deall maes cyfleoedd polisi, cynllunio, rheoli a darparu chwaraeon.
- Defnyddio sgiliau rhyngweithiol a sgiliau gweithio mewn grwp.
- Gweithio fel rhan o dîm a bod yn gyd-ddibynnol.
- Gwybod sut i ddysgu, addasu i amgylchiadau sy'n newid, hunan-arfarnu ac ystyried eich dull o weithio.
- Cynllunio a rheoli eich datblygiad a'ch dysgu eich hun.
- Defnyddio technegau asesu diogelwch a risg.
- Defnyddio sgiliau cyfathrebu a chyflwyno, rhifedd a TGCh.
- Defnyddio'ch brwdfrydedd a'ch dawn i holi'n ddeallus, asesu'n feirniadol, datblygu syniadau newydd ac ymrwymo i ddysgu gydol oes.
- Gweithio'n annibynnol ac ar y cyd.
- Gweithredu cysyniadau gwasanaeth i gwsmeriaid a boddhad cwsmeriaid ac arfer da mewn cysylltiad â'r pwnc dan sylw.
- Dangos sgiliau hyfforddi priodol ac effeithiol lle bo'n berthnasol.

Trosolwg o Chwaraeon

Mae rhaglenni gradd chwaraeon yn amrywio'n fawr ac yn deillio o seiliau a chefndiroedd athronyddol gwahanol. Maent yn ymwneud â chyfoethogi profiadau bywyd unigolion trwy chwaraeon ac ymarfer corff, fel defnyddwyr, y bobl sy'n cymryd rhan a darparwyr gwasanaethau.

Fel rheol, mae graddedigion sy'n astudio unrhyw un o'r pynciau Chwaraeon yn feddylwyr ystyriol ac ymatebol, yn gallu rhoi barn annibynnol, yn fentrus ac yn gwneud penderfyniadau cadarn. Gallant weithio fel rhan o dîm, a bod yn gyd-ddibynnol, ac mae ganddynt sgiliau galwedigaethol penodol i'w cynnig. Hefyd, maent yn gallu dysgu ac addasu i amgylchiadau sy'n newid a rheoli eu datblygiad eu hunain. Fel rheol, byddant wedi'u paratoi ar gyfer dilyn amrywiaeth o yrfaoedd proffesiynol a galwedigaethol mewn sector sy'n dal i dyfu a datblygu.

Ffynhonnell: CIHE 2006